# Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 18 Mai 2004

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**Cynnig i ethol aelodau i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
*NDM1955 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 8.4 a 14.3, yn ethol Mark Isherwood (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle David Davies (Ceidwadwyr).

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.01pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 10.

**2.51pm**
**Cwestiwn Brys**
**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ddatganiad ynghylch cau Mid Wales Yarns Ltd yn Llandrindod.

**3.05pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu'r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 51
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.14pm**
**Pwynt o Drefn**
**Jenny Randerson** o dan Reol Sefydlog 6.9 ynghylch gweithgareddau Gweinidogion yn y cyfnod cyn yr etholiadau llywodraeth leol.

**3.19pm**
***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

*NDM1952 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:
1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004 ar y Gorchymyn drafft Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004: a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2004.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004 ar y Gorchymyn drafft Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy’r e-bost at Aelodau’r Cynulliad ar 11 Mai 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.20pm**
***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni’n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14 Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2004**
*NDM1953 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25, 25.12 a 25.13:
1. yn cymeradwyo'r drafft o'r Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio Rhif 2) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004; a

2. yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r gadair**

**3.22pm**
**Dadl ar Adroddiad y Comisiwn Archwilio "Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru"**
*NDM1956 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
1. Yn llongyfarch staff ar bob lefel o fewn GIG Cymru am flwyddyn pan gafwyd gostyngiad sydyn yn yr amseroedd aros hir ar gyfer triniaethau a phan gafwyd gwelliant mawr o ran mynediad i gleifion.

2. Yn croesawu'r gymeradwyaeth a roddwyd i bolisïau iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Adroddiad y Comisiwn Archwilio, Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

3. Yn rhannu safbwynt y Comisiwn Archwilio ac Adolygiad Wanless fod consensws yn hollol hanfodol ar gyfer newid yn y gwasanaeth iechyd.

4. Yn nodi y bydd cam nesaf y broses ddiwygio yn cael ei gyflawni gan Gynlluniau Gweithredu Wanless Lleol, a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 30 Ebrill, ac y bwriedir eu trafod yn y Cyfarfod Llawn eto cyn toriad yr haf 2004.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac ychwanegu:
1. Yn mynegi diolch i staff y GIG yng Nghymru am eu hymroddiad cyson i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwerthfawr o dan amodau anodd.

2. Yn nodi canfyddiadau Adroddiad y Comisiwn Archwilio, Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, ac yn cytuno â barn y Comisiwn Archwilio ac Adolygiad Wanless nad yw'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn gynaliadwy ar hyn o bryd, ac er bod y ddau adroddiad yn cydnabod y cynnydd mewn cyllid maent yn dod i'r casgliad bod y gwario ar iechyd wedi bod yn annigonol ac yn aneffeithiol, heb ddigon o ganlyniadau gwirioneddol.

3. Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu cynllun cenedlaethol a fydd yn cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer gwelliannau o fewn y gwasanaeth iechyd.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac yn ei le rhoi:
1. Yn mynegi diolch i staff GIG Cymru am eu hymroddiad cyson o dan amodau anodd

eithriadol, y mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru dderbyn cyfrifoldeb amdanynt.

2. Yn cyd-fynd â'r Comisiwn Archwilio a'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynghorwyd gan Derek Wanless, o ran beirniadu'r Gweinidog Iechyd am gamreoli GIG Cymru yn affwysol dros gyfnod o bum mlynedd.

3. Yn nodi bod rhestrau aros wedi dyblu yn ystod cyfnod y weinyddiaeth hon, o gymharu â'r hyn oeddent dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf.

4. Yn galw ar weinyddiaeth Lafur y Cynulliad i gydnabod mai hi sy'n gyfrifol am greu'r Gwasanaeth Iechyd gwaethaf yn Ewrop.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu'r atalnod llawn ar ddiwedd pwynt 2 ac ychwanegu:
"gan gynnwys y ffaith nad yw'r GIG yng Nghymru 'yn trin y bobl iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn gan y tîm iawn', bod gwelyau yn y sector acíwt yn cael eu 'llenwi'n ddiangen gan bobl sy'n ddigon iach i fynd i rywle arall', ac y bydd gweithredu argymhellion Wanless yn golygu 'y bydd rhaid cau neu ailddynodi rhai ysbytai'."

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu pwynt bwled 4.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi bod yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac nad parhau i roi cyllid i wahanol fentrau yw'r ateb, sy'n cadarnhau'r angen am ymateb strategol gan y Gweinidog i Adolygiad Wanless.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Y cynnig**
O blaid 28; Ymatal 0 ;Yn erbyn 24; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

*Anfonwyd copi o Adroddiad y Comisiwn Archwilio - Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004*

*Anfonwyd copi o'r Cynlluniau Gweithredu Lleol drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Mai 2004*

**4.43pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
*NDM1954 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn gresynu at Setliad Llywodraeth Leol 2004/05 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi gorfodi Awdurdodau Lleol i godi'r Dreth Gyngor ymhell uwchlaw'r gyfradd chwyddiant.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Karen Sinclair (De Clwyd);**
Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac yn ei le rhoi:
Yn nodi bod cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru ers 1999 wedi bod yn sylweddol is na'r gyfradd o dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf. Mae'n ailddatgan y cymorth a roddodd i'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2004-2005 y cytunwyd arno ar 10 Rhagfyr 2003, gan gydnabod bod hwn yn setliad teg a oedd yn ymateb i'r anghenion a nodwyd gan lywodraeth leol ac i flaenoriaethau'r Cynulliad.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu'r gair 'rhai' ar ôl 'gorfodi'.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod bod y Dreth Gyngor yn rhoi pwysau afresymol ar y rheini sydd ar incwm sefydlog ac isel fel pensiynwyr, ac y dylid ei chyfnewid am dreth incwm leol, fel rhan o'r system drethu decach a chynyddol sy'n seiliedig ar allu pobl i dalu.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu nad yw'r Dreth Gyngor yn ddull hyblyg na chynyddol o godi trethi, ac mai'r rhai lleiaf tebygol o allu ei fforddio sy'n cael yr ergyd drymaf.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y byddai cyflwyno system Dreth Incwm Leol decach a mwy tryloyw yn lle'r Dreth Gyngor yn lleihau biwrocratiaeth ac yn gostwng y baich trethi ar rai o'r bobl dlotaf yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y dylai'r gyfran o adnoddau'r cynghorau lleol sy'n cael ei chodi'n lleol gynyddu'n sylweddol ac yn nodi na all cynnydd o'r fath ddigwydd drwy godi treth ar eiddo.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Methodd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 5; Ymatal 8; Yn erbyn 36; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.41pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 19 Mai 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 13 Mai 2004**
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio: Adnewyddu Tai y Sector Preifat yng Nghymru - LD2925

**Dogfennau a Osodwyd ar 12 Mai 2004**
Cost Benefit Analysis for Subordinate Legislation Proposed by Helen Mary Jones AM - LD2926 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur Plant a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 5 Mai 2004 - LD2927